Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amddiffynwch eich plentyn gyda'r brechlyn difftheria, tetanws, pertwsis (y pas) a pholio (4-mewn-1)

**Mae'r daflen hon yn egluro'r brechlyn 4-mewn-1 (DTaP/IPV neu dTaP/IPV).**

## Ffeithiau allweddol

### Diogelu iechyd eich plentyn

Brechu yw un o'r ffyrdd gorau o amddiffyn eich plentyn rhag salwch difrifol. Mae'r brechlyn 4-mewn-1 yn helpu i amddiffyn rhag:

- **difftheria**
- **tetanws**
- **pertwsis (y pas)**
- **polio.**

**Sganiwch fi am ragor wybodaeth ar 4-mewn-1**

**! Gan y gall yr amddiffyniad gan frechiadau babanod bylu dros amser, mae'n bwysig i'ch plenty gael ei frechlyn 4-mewn-1 ar gyfer amddiffyniad hirdymor.**

### Mae brechu'n bwysig

Cyn brechlynnau, byddai llawer o blant yn y DU yn dal difftheria, tetanws, pertwsis, neu bolio bob blwyddyn. Mae brechu wedi lleihau nifer yr achosion hyn ac mae wedi achub llawer o fywydau.

**Mae'n bwysig brechu i atal y clefydau hyn rhag dod yn ôl.**

## Pryd i gael y brechlyn

Dylai eich plentyn gael ei frechiad 4-mewn-1 yn ei apwyntiad arferol pan fydd yn dair blwydd a phedwar mis oed.

# Beth mae'r brechlyn 4-mewn-1 yn helpu I amddiffyn yn ei erbyn?

## Difftheria

Mae difftheria yn glefyd difrifol sydd fel arfer yn dechrau gyda dolur gwddf a thymheredd uwch (twymyn). Gall arwain yn fuan wedyn at broblemau anadlu a gall niweidio'r galon a'r system nerfol. Mewn achosion difrifol, gall achosi marwolaeth. Mae difftheria yn lledaenu drwy beswch a thisian neu drwy gysylltiad agos a pherson heintiedig.

Mae difftheria yn anghyffredin yn y DU. Fodd bynnag, mae'n bosibl ei ddal wrth deithio i wledydd eraill.

**Ffaith! Cyn i'r brechlyn difftheria gael ei gyflwyno i'r DU, roedd hyd at 70,000 o achosion o ddifftheria a hyd at 5,000 o farwolaethau'r flwyddyn.**

## Tetanws

Mae tetanws yn effeithio ar system nerfol y corff, gan achosi sbasmau yn y cyhyrau a phroblemau anadlu. Mae'n glefyd difrifol a all arwain at broblemau iechyd difrifol os na chaiff ei drin yn gyflym. Mae'n cael ei achosi pan fydd germau a geir mewn pridd neu dail yn mynd i mewn i'r corff trwy friwiau agored neu losgiadau. Ni all tetanws ledaenu o berson i berson.

## Pertwsis (y pas)

Mae pertwsis, a adwaenir yn fwy cyffredin fel y pas, yn haint sy'n effeithio ar yr ysgyfaint a'r llwybrau anadlu. Mae symptomau'n tueddu i ddatblygu fesul cam, gan ddechrau gyda symptomau ysgafn, tebyg I annwyd. Gall symptomau mwy difrifol ddatblygu ar ol y rhain, cyn i'r claf wella.

Gall y pas achosi pyliau hir o beswch a thagu, sy'n ei gwneud hi'n anodd anadlu. Mae'r sŵn 'wwp' yn cael ei achosi wrth dynnu'r anadl ar ol pob cyfnod o beswch. Nid yw babanod ifanc bob amser yn gwneud hyn, a all ei gwneud yn anodd adnabod y clefyd.

Gall symptomau'r pas bara am ddau i dri mis. Babanod o dan flwydd oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o salwch difrifol ac sydd mewn perygl o farw o'r afiechyd.

Cyn i'r brechlyn pas gael ei gyflwyno, roedd 120,000 o achosion a amheuir yn cael eu hadrodd bob blwyddyn ar gyfartaledd yn y DU. Yn y flwyddyn cyn i'r brechlyn gael ei gyflwyno, bu farw 92 o blant. Mae'r pas yn lledaenu'n hawdd a gellir ei ddal trwy anadlu defnynnau bach iawn sy'n cael eu rhyddhau i'r aer pan fydd pobl a'r afiechyd yn pesychu neu'n tisian.

## Polio

Mae polio yn feirws a all effeithio ar eich system nerfol. Gall achosi gwendid parhaol yn y cyhyrau, fel arfer yn y coesau. Os yw polio'n effeithio ar gyhyrau'r frest neu'r ymennydd, gall arwain at broblemau iechyd difrifol iawn.

Gallwch ddal polio os byddwch yn dod i gysylltiad a baw rhywun sydd a'r haint, neu drwy anadlu defnynnau pan fydd yn peswch neu'n tisian.

**Ffaith! Ym 1988, parlysodd polio fwy na 1,000 o blant ledled y byd bob dydd.**

Cyn i'r brechlyn polio gael ei gyflwyno, roedd cynifer ag 8,000 o achosion o bolio yn y DU yn ystod blynyddoedd pan oedd epidemigau. Diolch I lwyddiant parhaus y brechlyn, nid oes un achos o haint naturiol o bolio wedi bod yn y DU ers dros 30 mlynedd. Adroddwyd am yr achos olaf yn 1984. Dyna pam ei bod yn bwysig brechu er mwyn atal clefydau fel polio rhag dod yn ôl.

## Pam mae angen brechu fy mhlentyn pan fydd yr oedran hwn?

Rhoddir y 4-mewn-1 i blant pan fyddant yn dair blwydd a phedwar mis oed. Mae'r brechlyn hwn yn rhoi hwb i'r amddiffyniad gan y brechlynnau 6-mewn-1 a gawsant fel babanod (a oedd yn cynnwys amddiffyniad rhag difftheria, tetanws, y pas, polio, ffliw Haemophilus math b (Hib) a hepatitis B).

Gall yr amddiffyniad gan frechiadau babanod bylu dros amser, felly mae'n bwysig i'ch plentyn gael ei frechlyn 4-mewn-1.

**Pan fyddwch chi'n mynd â'ch plentyn i gael ei frechiadau, mae'n bwysig sicrhau bod ei holl frechiadau eraill yn gyfredol.**

## Sut byddaf yn gwybod pan fydd angen i'm plentyn gael brechiadau?

Anfonir apwyntiad at blant ar gyfer eu brechiad 4-mewn-1 arferol pan fyddant yn dair blwydd a phedwar mis oed. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd teulu a chanolfannau iechyd yn cynnal clinigau brechu arbennig ar gyfer plant. Os byddwch yn newid eich cyfeiriad, rhowch wybod i'ch meddygfa.

## Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs practis neu'r meddyg teulu yn esbonio'r brechiadau ac yn ateb eich cwestiynau. Ar gyfer plant dros 12 mis oed, fel arfer rhoddir pigiadau yn rhan uchaf y fraich.

**Ysgrifennwch unrhyw gwestiynau sydd gennych a gofynnwch nhw i'r gweithiwr iechyd proffesiynol yn yr apwyntiad brechu.**

## A ellir rhoi'r brechlyn os yw fy mhlentyn yn sal ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os bydd eich plentyn yn sal gyda thymheredd uwch (twymyn) ar ddiwrnod y brechiad, gohiriwch yr apwyntiad nes ei fod wedi gwella. Os oes gan eich plentyn fan salwch heb dwymyn, fel annwyd, dylai gael y brechiad yn ol yr arfer.

## A oes unrhyw resymau eraill pam na ddylid rhoi'r brechlyn?

Ychydig iawn o blant na allant gael y brechlyn 4-mewn-1. Ni ddylid rhoi'r brechlyn i blant sydd wedi cael adwaith alergaidd difrifol (sy'n bygwth bywyd) i:

- a dos blaenorol o'r brechlyn, neu
- gynhwysyn yn y brechlyn.

Os yw'ch plentyn:

- ag anhwylder gwaedu (fel hemoffilia, pan nad yw ei waed yn clotio'n iawn), neu
- wedi cael trawiad (ffit) erioed na chafodd ei achosi gan dwymyn

siaradwch a'ch meddyg teulu, nyrs practis neu ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael unrhyw frechiad.

## Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad os na allwch fynd iddo. Os byddwch yn colli'r apwyntiad neu'n gorfod gohirio'r brechiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted a phosibl. Gellir rhoi'r brechiad o hyd, ond bydd eich plentyn heb amddiffyniad am fwy o amser.

**! Cofiwch, mae'n bwysig cael brechiadau a gollwyd. Os yw'ch plentyn wedi colli brechiad ac yn hŷn na'r oedran a argymhellir ar ei gyfer, siaradwch a'ch meddyg teulu, nyrs practis neu ymwelydd iechyd.**

## A oes gan y brechlyn unrhyw sgil-effeithiau?

Mae miliynau o ddosau o'r brechlyn wedi'u defnyddio ac mae ganddo hanes da iawn o ddiogelwch.

Fel pob meddyginiaeth, gall brechlynnau achosi sgileffeithiau. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ysgafn ac nid ydynt yn para'n hir, ac nid yw pawb yn eu cael. Mae sgil-effeithiau'r brechlyn yn fach o'u cymharu a mynd yn ddifrifol wael o'r clefydau.

**Mae'r sgil-effeithiau mwyaf cyffredin yn cynnwys:**

- poen, cochni neu chwydd yn safle'r pigiad
- dolur rhydd
- blinder
- twymyn.

### Sgil-effeithiau anghyffredin iawn

Yn anaml, gall pobl gael adwaith difrifol yn fuan ar ol cael eu brechu,

sy'n achosi anawsterau anadlu a gall beri iddynt lewygu. Gelwir hyn yn adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd hefyd gyda meddyginiaethau eraill a bwyd. Mae'r adweithiau hyn yn hynod o brin, ac yn effeithio ar lai nag un mewn miliwn o bobl. Mae staff sy'n rhoi brechiadau wedi'u hyfforddi i reoli'r adweithiau hyn.

Gall pobl sy'n cael adwaith anaffylactig gael eu trin yn llwyddiannus ac fel arfer maent yn gwella o fewn ychydig oriau.

Gweler tudalen gefn y daflen hon am ragor o fanylion am:

- y brechlyn, gan gynnwys sgil-effeithiau posibl, ac
- adrodd am sgil-effeithiau a amheuir trwy gynllun y Cerdyn Melyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sgil-effeithiau, gallwch ofyn i'r person sy'n rhoi'r brechlyn i'ch plentyn.

## Beth ddylwn i ei wneud os bydd fy mhlentyn yn teimlo'n sal ar ol y brechiad?

Os oes gan eich plentyn dwymyn ac yn teimlo'n sal ar ol y brechiad, gallant gymryd paracetamol neu ibuprofen hylif. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus a rhowch y dos cywir ar gyfer oedran eich plentyn. Nid ydym yn argymell cymryd y meddyginiaethau hyn cyn y brechiad 4-mewn-1 i atal twymyn.

**! Cofiwch – ni ddylai plant o dan 16 oed gymryd meddyginiaethau sy'n cynnwys aspirin.**

Os ydych yn poeni am eich plentyn ar ôl iddo gael y brechlyn, dylech

siarad â'ch ymwelydd iechyd, meddyg teulu neu nyrs practis. Gallwch hefyd gysylltu â GIG Cymru drwy ffonio **111**. Mae galwadau i GIG 111 Cymru am ddim o linellau tir a ffonau symudol.

## A all fy mhlentyn ddal i gael yr heintiau hyn os caiff ei frechu?

Mae'r brechiad 4-mewn-1 yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal salwch difrifol o ddifftheria, tetanws, y pas a pholio. Nid oes unrhyw frechlyn 100% yn effeithiol, felly mae'n dal yn bwysig gwybod arwyddion a symptomau'r clefydau hyn, hyd yn oed os ydych chi neu eich plentyn wedi cael eich brechu.

I gael rhagor o wybodaeth am ddifftheria, tetanws, y pas a pholio ewch i:

**GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Diffhteria** (safle allanol, Saesneg yn unig)

**GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Tetanws** (safle allanol, Saesneg yn unig)

**GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y pas** (safle allanol)

**GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Polio** (safle allanol, Saesneg yn unig)

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, ewch i **icc.gig.cymru/brechlynnau**

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, gallwch fynd I **111.wales.nhs.uk** (safle allanol), siaradwch a'ch meddyg neu nyrs, neu gysylltu a GIG 111 Cymru drwy ffonio **111**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am frechlynnau a gynigir yng Nghymru o **icc.gig.cymru/brechlynnau**

I gael rhagor o wybodaeth am y brechlyn, ei gynnwys a'i sgil-effeithiau posibl, ewch I **medicines.org.uk/emc** (safle allanol, Saesneg yn unig). Bydd angen i chi nodi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio.Gallwch hefyd weld y daflen I gleifion ar-lein.

Gallwch ddod o hyd i enw'r brechlyn yn **icc.gig.cymru/4-mewn-1**

Dylech roi gwybod am sgil-effeithiau a amheuir ar-lein yn **www.mhra.gov.uk/yellowcard** (safle allanol, Saesneg yn unig), drwy lawrlwytho ap y Cerdyn Melyn, neu drwy ffonio **0800 731 6789** (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 9yb i 5yh).

I gael gwybod sut mae'r GIG yn defnyddio'ch gwybodaeth, ewch i **111.wales.nhs.uk/amdanomni/eichgwybodaeth** (safle allanol).

**Sganiwch fi i fynd i wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Tachwedd 2025

© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

ISBN 978-1-83766-907-3